OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 735 (Cy.87)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2013* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 34, 60 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**).

Fel sy'n ofynnol gan adran 34(5) o'r Ddeddf honno, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r personau sydd yn eu barn hwy yn briodol cyn gwneud y Gorchymyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

### Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

**2.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**2**) (lle y mae Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) wedi ei nodi) wedi ei diwygio yn unol ag erthyglau 3 a 4.

**3.** Ym Mhennod 1 o Ran 11 (tâl pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn a phrynu gwasanaeth ychwanegol), yn rheol 3(1) (cyfraniadau pensiwn) (**3**) mewnosoder "ganrannol" ar ôl "cyfradd".

(**1**) 2004 p.21; diwygiwyd adrannau 60 a 62 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, adrannau 9 a 10. Mae'r pwerau o dan adrannau 34 a 60 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2007/1072 (Cy.110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/1225 (Cy.108), 2010/234 a 2012/972 (Cy.127).

(**3**) Diwygiwyd rheol 3(1) gan erthyglau 2 a 3 o O.S. 2012/972 (Cy.127).

**4.** Yn lle'r Tabl ym mharagraff 5 o Atodiad A1 rhodder y Tabl canlynol—

| *"Tâl pensiynadwy* | *Y gyfradd gyfrannu o 1 Ebrill 2013 ymlaen* |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £15,000 | 8.5% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £15,000 a hyd at a chan gynnwys £21,000 | 9.1% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £21,000 a hyd at a chan gynnwys £30,000 | 9.6% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £30,000 a hyd at a chan gynnwys £40,000 | 9.9% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £40,000 a hyd at a chan gynnwys £50,000 | 10.1% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £50,000 a hyd at a chan gynnwys £60,000 | 10.2% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £60,000 a hyd at a chan gynnwys £100,000 | 10.5% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £100,000 a hyd at a chan gynnwys £120,000 | 10.8% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £120,000 | 11.1% o'r tâl pensiynadwy." |

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("y Cynllun") sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy.110)), i fod yn effeithiol o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

Mae erthygl 3 yn mewnosod y gair "ganrannol" er mwyn egluro ystyr darpariaeth a ddiwygiwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012 (O.S. 2012/972 (Cy.127)).

Mae erthygl 4 yn diwygio'r Cynllun er mwyn darparu ar gyfer cyfradd wahanol o gyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan aelodau'r Cynllun sy'n cynyddu yn ôl swm y tâl pensiynadwy y mae'r aelod yn ei dderbyn.

Yn ychwanegol, mae band newydd o dâl pensiynadwy wedi ei greu fel y bydd y diffoddwyr tân hynny sy'n ennill mwy na £15,000 a hyd at £21,000, a chan gynnwys y swm hwnnw, yn talu cyfradd is na'r rheini sy'n ennill mwy na £21,000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Tân a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ neu drwy ffonio 0300 062 8254.